**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1160
Ein cyf/Our ref JMEWL/11851/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Rhagfyr ynghylch deiseb P-05-1160 (Ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau arholiadau lleol yng Nghymru dderbyn myfyrwyr sy’n cael addysg yn y cartref ar gyfer arholiadau cyhoeddus).

Mae gwaith ar y cynigion ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, a gafodd ei atal dros dro yn 2020, wedi ailgychwyn ac mae fy swyddogion yn cynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol i helpu gyda’u paratoadau a’r broses weithredu. Fel rhan o’r gwaith, bydd is-grŵp yn cyfarfod yn gynnar yn 2022 i nodi a datblygu arferion gorau o ran darparu cymorth a chefnogaeth addas, er budd teuluoedd sy’n cael addysg ddewisol yn y cartref yng Nghymru. Bydd yr is-grŵp hefyd yn ystyried mynediad at gymwysterau ac arholiadau fel rhan o’i cylch gwaith. Byddaf yn gofyn i’m swyddogion sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am ganlyniad y gwaith hwn.

Fel y cyhoeddodd Cymwysterau Cymru ym mis Mawrth, rydym yn disgwyl i arholiadau gael eu cynnal yn 2022. O gofio hynny, fel mewn blynyddoedd blaenorol, dylai ymgeiswyr preifat ddechrau meddwl am gysylltu â chanolfannau i weithio â nhw. Rydym yn cynghori bod ymgeiswyr yn gwneud hyn cyn gynted â phosibl, gan mai’r dyddiad cau i ganolfannau gyflwyno ymgeiswyr i CBAC yw **dydd Llun, 21 Chwefror 2022**.

Anogir canolfannau i ganiatáu i ymgeiswyr preifat gofrestru â nhw yn y ffordd arferol. Os na all ymgeiswyr ddod o hyd i ganolfan, dylent siarad â Swyddog Addysg yn y Cartref eu Hawdurdod Lleol am gyngor. Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol, dylai’r dysgwr sôn am hyn wrth y Ganolfan/Swyddog Addysg yn y Cartref.

Os byd y sefyllfa iechyd gyhoeddus yn ei gwneud yn amhosibl i gynnal y gyfres arholiadau sydd wedi’i hamserlennu yn 2022, mae trefniadau wrth gefn wedi eu paratoi a bydd yn cael

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eu rhoi ar waith. Gellir gweld y cynlluniau wrth gefn cyffredinol ar wefan Cymwysterau Cymru.

Pan fo ymgeiswyr preifat yn dymuno cofrestru am gymwysterau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru, byddai angen i’r corff dyfarnu/rheoleiddiwr priodol gadarnhau eu trefniadau. Mae’r Adran Addysg yn Lloegr wedi cytuno ar y dull gweithredu sydd i’w gymryd yn yr achos hwn ar gyfer ymgeiswyr preifat (ee. y rhai sy’n ceisio cael cymhwyster AQA, OCR, Eduqas neu gymwysterau Pearson) ac maent wedi cyhoeddi llythyr i ymgeiswyr preifat yn amlinellu eu cynlluniau.

Mewn perthynas â ffioedd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae’r rhan fwyaf o ymgeiswyr preifat yn talu’r ffi mynediad a thâl ychwanegol i’r ganolfan weinyddu’r cais i gofrestru. Os bydd angen y trefniadau wrth gefn, bydd y trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau nad yw dull amgen ar gyfer asesu yn creu rhwystrau ychwanegol i ymgeiswyr preifat.

O gofio ein bwriad i feithrin partneriaethau mwy cadarnhaol ac effeithiol gyda theuluoedd addysg ddewisol yn y cartref, rydym yn darparu £1.7m i awdurdodau lleol yng Nghymru i gefnogi addysg ddewisol yn y cartref. Mater i awdurdodau lleol unigol yw sut i ddefnyddio’r cyllid, gan sicrhau bod yr adnoddau cyfyngedig yn cael eu defnyddio i gael yr effaith fwyaf ac yn unol â’i gyfrifoldebau statudol. Mewn rhai achosion, mae rhieni/gofalwyr wedi defnyddio’r cyllid hwn i helpu gyda chostau cymwysterau ac arholiadau.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language